OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3225 (Cy.307)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *11 Rhagfyr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1), (2), (4) a (4A), 140(4) a 143(1), (3) a (4A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(**2**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 11 Rhagfyr 2003.

### Diwygio Rheoliadau 1999

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (4) o reoliad 1:

(a) Ar y dechrau, mewnosodwch y canlynol—

"(a) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (b)".

(b) Ar y diwedd, ychwanegwch y canlynol—

"(b) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, mae'r cyfeiriad at Aquila Networks plc yn gyfeiriad at gwmni ac iddo'r enw hwnnw ar 10 Mai 2002.".

(3) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, ac yn effeithiol o 1 Tachwedd 2001 ymlaen, rhowch "Aquila Networks plc" yn lle "Midlands Electricity plc"

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 53(1), (2), (4) a (4A), 140(4) a 143(1), (3) a (4A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2(2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/3453.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Er mwyn sicrhau bod hereditamentau penodol i gyd yn cael eu hardrethu'n ganolog gyda'i gilydd, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan adran 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988. Yn y rheoliadau hynny, caiff ddynodi person a rhagnodi un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditament annomestig mewn perthynas â'r person hwnnw. I'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru, mae'r pŵer hwn wedi cael ei drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Y prif Reoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddibynnu ar y pŵer hwn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999. Mae'r rhain yn effeithiol o ran unrhyw restr ardrethu canolog i Gymru a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy roi Aquila Networks plc fel person dynodedig mewn perthynas â hereditamentau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at swyddogaethau darparwr trydan cyhoeddus, neu at ddibenion atodol, yn lle Midlands Electricity plc o 1 Tachwedd 2001.